

## Clwb Mynydda Cymru – Polisi Preifatrwydd

Pwrpas y polisi hwn ydi egluro sut mae Clwb Mynydda Cymru yn ymdrin â gwybodaeth bersonol a pha hawliau sydd gan unigolion. Mae wedi ei lunio i gydymffurfio hefo Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data 2018.

### Pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu?

Mae'r Clwb yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost, rhifau ffôn a manylion banc aelodau a charedigion\*
- Enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn arweinyddion teithiau
- Enw a rhif cyswllt argyfwng y rhai sy'n mynychu teithiau neu weithgareddau eraill

### Pam ydym yn casglu'r wybodaeth?

Mae'r Clwb yn casglu'r wybodaeth er mwyn gweinyddu'r rhestr aelodaeth, trefnu a rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau'r Clwb a sicrhau diogelwch ar deithiau.

### Pwy sydd â hawl mynediad at yr wybodaeth?

Dim ond y swyddogion canlynol sydd â mynediad at yr wybodaeth:

- y Trysorydd a'r Trysorydd Cynorthwyol – y rhestr aelodaeth, ffurflenni ymaelodi a manylion banc aelodau a chyfeillion
- yr Ysgrifennydd Aelodaeth a'r Ysgrifennydd Gweithgareddau – y rhestr aelodaeth
- cydlynwyr teithiau'r de a theithiau Dydd Mercher – cyfeiriadau e-bost y rhai sy'n arfer mynychu'r teithiau
- arweinyddion teithiau – enwau a manylion cyswllt argyfwng y rhai sy'n mynychu'r daith

### Ydi'r wybodaeth yn cael ei rhannu hefo rhywun arall?

Mae enw, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost aelodau yn cael eu hanfon at y Cyngor Mynydda Prydeinig er mwyn gweinyddu aelodaeth o'r CMP a'r yswiriant sy'n dod gydag ef. Gellir cael gwybod sut mae'r BMC yn ymdrin â'r wybodaeth ar <http://www.thebmc.co.uk/privacy>

'Dydi'r Clwb ddim yn rhyddhau'r rhestr aelodaeth i unrhyw un arall oddi allan neu oddi fewn i'r Clwb.

### Yn lle mae'r wybodaeth yn cael ei chadw?

- y rhestr aelodaeth - ar gyfrifiaduron personol y swyddogion perthnasol
- ffurflenni ymaelodi – ar gyfrifiadur y Trysorydd a'r Trysorydd Cynorthwyol ac ar ffurf papur gan y Trysorydd
- manylion cyswllt argyfwng - ar ffurf papur ar ddechrau pob taith gan arweinydd y daith
- mae enw a manylion cyswllt arweinyddion teithiau yn cael eu cyhoeddi yn y rhaglen ar y we ac ar bapur

### Am ba hyd mae'r wybodaeth yn cael ei chadw?

Bydd y Clwb yn cadw'r wybodaeth tra bod ei hangen i weinyddu'r Clwb a'i weithgareddau. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd:

- rhestrau aelodau a ffurflenni ymaelodi yn cael eu cadw am 6 mlynedd
- manylion cyswllt argyfwng yn cael eu dinistrio yn syth ar ôl y daith
- manylion cyswllt arweinyddion yn cael eu dileu o hen raglenni ar y we o hyn ymlaen
- rhestrau dosbarthu e-bost yn cael eu diweddarau'n flynyddol

### Oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chasglu trwy'r wefan?

Cyfrwng i gyfleu gwybodaeth am y Clwb ydi'r wefan ac nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chasglu drwyddi. Nid yw'r Clwb yn gosod "cwcis" ar gyfrifiaduron y rhai sy'n ymweld â'r wefan.

### Pa hawl sydd gan y Clwb i ddelio hefo gwybodaeth bersonol?

Mae enwau a manylion cyswllt arweinyddion teithiau yn cael eu casglu a'u dosbarthu trwy ganiatad penodol yr unigolion.

Mae'r Clwb yn ymdrin hefo pob gwybodaeth bersonol arall ar y sail fod hynny'n angenhrediol er mwyn gweinyddu'r Clwb, ei aelodaeth a'i weithgareddau, rhoi cyhoeddusrwydd iddynt a sicrhau diogelwch ar deithiau. Ystyrir fod gan y Clwb fuddiant dilys mewn gwneud hyn ac nad yw'n mynd tu hwnt i'r hyn y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl.

### Beth yw hawliau unigolion?

Mae gennych hawl:

- i gael gwybod pa wybodaeth mae'r Clwb yn ei ddal amdanoch ac i gael copi ohoni
- i gael cywiro neu ddileu unrhyw wybodaeth sy'n anghywir
- i wrthwynebu i'r defnydd o'ch gwybodaeth mewn ffordd benodol e.e. gallwch ofyn am i'ch manylion beidio a chael eu hanfon at y Cyngor Mynydda Prydeinig neu ofyn am i'ch cyfeiriad e-bost gael ei ddileu o'r rhestr ddsbarthu

Os ydych am ddefnyddio unrhyw un o'r hawliau yma neu os ydych angen rhagor o wybodaeth cysylltwch hefo'r Clwb ar [ymholiadau@clwbmynyddacymru.com](mailto:ymholiadau@clwbmynyddacymru.com) neu drwy'r post at Iolo Roberts, Ysgrifennydd Cyffredinol, 37 Stryd Margaret, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NB.

---

\* Caredigion y Clwb ydi'r bobl rheini sy'n cyfrannu arian yn flynyddol, ond heb fod yn dâl aelodaeth llawn. Mae eu manylion cyswllt yn cael eu casglu ond nid ydynt yn cael eu rhannu hefo'r CMP.